Cyngor Sir y Fflint

# Cymraeg i Bawb

# Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg



2025 - 2030

This document is available in English

## Cymraeg i Bawb

## Rhagair

Croeso i'n Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd, Cymraeg i Bawb.

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol Sir y Fflint, ac rydym yn hynod falch o ddathlu ein treftadaeth ieithyddol. Rydym yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hwylus drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym ni yma i gefnogi pawb yn ein cymunedau, yn arbennig y rhai sydd fwyaf ei hangen. Mae'n hollbwysig fod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau yn eu hiaith gyntaf, p'un a ydynt yn bobl hŷn sy'n byw â dementia neu'n adfer yn dilyn strôc, neu'n blant ifanc iawn sydd ond yn gallu siarad Cymraeg.

Drwy gynnig dewis iaith bob amser, gallwn ddangos urddas a pharch, a sicrhau cefnogaeth a diogelwch i bawb. Rydym yn gyffrous iawn am y cynnydd yr ydym yn ei wneud i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ond rydym hefyd yn gwybod bod datblygu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer ein sir yn her sylweddol i ni gyd, yn enwedig gan fod Cyfrifiad 2021 yn dangos fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn gostwng - ni fedrwn ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid megis Coleg Cambria, Menter Iaith, Mudiad Meithrin a'r Urdd.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, ac rydym yn awyddus i chi ymuno â ni ar y siwrnai gyffrous hon. Gadewch i ni fod yn falch o'n hiaith a bod yn rhan o rywbeth hollol arbennig.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cynghorydd Mared Eastwood
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden

# Cynnwys


1.0 Cyflwyniad .... 4
2.0 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi .... 5
3.0 Gweledigaeth .... 6
4.0 Lle rydym ni arni rŵan .... 6
5.0 Sut fyddwn yn cyflawni ein targed - Ein hamcanion .... 10
  5.2 Amcan 1 - Cymuned .... 10
  5.3 Amcan 2 - Teulu .... 10
  5.4 Amcan 3 - Gweithle .... 11
6.0 Partneriaid .... 11
7.0 Monitro ac Adolygu .... 12
Cynllun Gweithredu .... 13

## 1.0 Cyflwyniad

1.1. Mae gofyniad statudol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth bum mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif.1) 2015 (Safonau'r Gymraeg 145 a 146). Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni:

- Gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth bum mlynedd yn egluro sut byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cefnogi ei defnydd.
- Cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd.
- Nodi sut rydym yn bwriadu bodloni ein targed.

1.2 Yn bwysicach fyth, rydym wedi datblygu'r Strategaeth hon gan ein bod yn awyddus i wneud hynny - rydym yn falch o'n hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth. Rydym yn awyddus i ddiogelu'r Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, hoffem ddarparu gwasanaethau dwyieithog a chadw ein pobl fwyaf diamddiffyn yn ddiogel, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae bron i 18,000 o bobl yn siarad Cymraeg yn Sir y Fflint - mae hynny'n 11% o'n cwsmeriaid. Yng Nghymru, mae bron i 18% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, mewn rhai rhannau o Gymru, mae dros 60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

1.3 Mae'r Gymraeg yn ymwneud â mwy nag addysg; mae'n rhan o'n bywydau bob dydd. Gallwn sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg adref, mewn digwyddiadau cymdeithasol, yn y siop, neu wrth ymweld â'n banc hyd yn oed. Mae oddeutu 509,000 o bobl yn gwylio S4C, ein sianel deledu Gymraeg, yn wythnosol, sy'n dangos fod y Gymraeg yn fyw iawn.

1.4 Er mwyn datblygu'r Strategaeth hon, gofynnom i breswylwyr, gweithwyr a phartneriaid rannu eu barn ar sut fedrwn ni hyrwyddo'r Gymraeg a'r targedau y dylem eu gosod. Roedd dros 60% ohonynt yn cytuno y dylid gosod targed o gyflawni 15% o siaradwyr Cymraeg o fewn 5 mlynedd, ac awgrymwyd hefyd y gellid gosod targed i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r targed, roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda chynnal y % bresennol o siaradwyr Cymraeg (11.6%).

1.5 Awgrymwyd bod angen cael hwyl wrth ddysgu Cymraeg ac y dylid darparu rhagor o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg fel oedolyn. Mae'n gallu bod yn hawdd colli ffydd fel dysgwr a rhoi'r ffidil yn y to os nad ydych yn teimlo eich bod yn gwneud cynnydd. Roedd rhai'n pryderu mai ychydig o gyfleoedd oedd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol, ac fe allai hynny gael effaith negyddol ar frwdfrydedd a sgiliau dysgwyr. Mae'n bwysig felly fod y Strategaeth yn mynd i'r afael â hyn ac yn atgyfnerthu'r pwysigrwydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

1.6 Pwysleisiodd ymatebwyr y pwysigrwydd o welededd yr iaith, er enghraifft, arwyddion a'r defnydd o'r logo Iaith Gwaith, er mwyn dangos bod rhywun yn siarad Cymraeg a'n bod yn croesawu'r Gymraeg.

1.7 Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai ymatebwyr yn bryderus am y costau sylweddol sydd ynghlwm â hyrwyddo'r Gymraeg ac argraffu gwybodaeth yn ddwyieithog i'r Cyngor. Rydym yn ymgorffori'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn sy'n

lleihau costau, rydym yn argraffu llai o bapur, gan arbed dros £28,000 ers 2019. Mae rhai o'n gweithwyr yn helpu gyda chyfieithu - po fwyaf o weithwyr yr ydym yn eu recriwtio sy'n siarad Cymraeg, y mwyaf hyderus y bydd ein gweithwyr yn defnyddio eu Cymraeg a'r lleiaf yw'r ddibyniaeth ar y gwasanaeth cyfieithu.

1.8 Roedd rhai pryderon bod y Strategaeth hon yn golygu y byddwn yn gorfodi pobl i ddysgu Cymraeg. Nid yw bod yn rhan o'n siwrnai Gymraeg yn golygu bod yn rhaid i bawb siarad Cymraeg. Mae gallu dweud ychydig eiriau yn Gymraeg yn mynd ymhell - Bore Da/Diolch/Paned. Dim ots faint o eiriau Cymraeg sydd gennych - yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn eu defnyddio. Hyd yn oed os nad ydym yn siarad Cymraeg nac yn awyddus i ddysgu, gallwn ni gyd gefnogi ein hiaith. Rydym ni yma i hyrwyddo, cefnogi a diogelu ein hiaith i ni'n hunain a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n rhan o'n treftadaeth a'n hunaniaeth.

## 2.0 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Dyma ein hail Strategaeth, gallwch ddarllen am ein cyflawniadau yn ystod y pum mlynedd cyntaf yma
(Dolen i'w roi yma). Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi ac yn seiliedig ar y canlynol:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus gydweithio i gyrraedd saith nod lles, un o'r rheiny yw:

**Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**

Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: Nod Llywodraeth Cymru (LlC) yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae LlC yn awyddus i'w gwneud yn haws i bawb ddefnyddio'r Gymraeg, newid y ffordd yr ydym ni'n sôn am y Gymraeg a chynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol o 10% yn 2013-15 i 20% erbyn 2050.

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 - 2030): Mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen ar gyfer datblygiad newydd i gefnogi a chynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol lleol ac mae'n ymofyn bod asesiadau o effaith ar y Gymraeg yn cael eu cwblhau mewn perthynas â datblygiadau newydd.

Mwy na Geiriau: Fframwaith Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer cryfhau Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

**Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg** Mae ein Strategaeth yn anelu at ein helpu i dyfu a gwella'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'n busnes, a dod yn Gyngor hollol ddwyieithog yn fewnol ac yn allanol.

**Polisi Cymraeg yn y Gweithle:** Dyma ein polisi ar gyfer cefnogi pawb i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, beth bynnag yw eu lefel. Rydym yn awyddus i greu diwylliant lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu gwerthfawrogi'n gyfartal.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022- 2032): dyma'r cynllun sy'n amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn y gymuned gyfan. Y nod yw cynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg i ddatblygu dysgwyr sy'n hollol ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 3.0 Gweledigaeth

3.1 Ein gweledigaeth yw datblygu Cyngor a sir dwyieithog, lle mae'r Gymraeg yn rhan o'n bywydau bob dydd. Gyda'n gilydd, gallwn wireddu'r weledigaeth hon. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom. P'un a ydym yn megis dechrau, yn gallu dweud ambell beth, neu'n gallu sgwrsio yn y Gymraeg, rydym ni gyd ar y siwrnai hon gyda'n gilydd.


3.2 Dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn anelu at gynyddu canran y bobl yn Sir y Fflint sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg i 15% erbyn 2030. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu mwy o gyfleoedd i bawb ddefnyddio ychydig o Gymraeg yn ein bywydau bob dydd. Ein gweledigaeth yw datblygu sir hollol ddwyieithog a chefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

## 4.0 Lle rydym ni arni rŵan

4.1 Gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint o 13.2% yn 2011 i 11.6% yn 2021. Yn 2021, roedd tua 1,900 yn llai o drigolion Sir y Fflint yn siarad Cymraeg (dros dair oed) o gymharu â 2011. Cynyddodd nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg o 5,500.

| Pobl sy'n 3 oed neu'n hŷn | Cyfrifiad 2011 | Cyfrifiad 2021 |
|---|---|---|
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 4.4% | 5% |
| Yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 10.9% | 13.70% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 79.4% | 81.30% |
| Yn gallu siarad Cymraeg | 13.2% | 11.6% |

Cyfrifiad 2021 - canran y siaradwyr Cymraeg fesul grŵp oedran




4.2 Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu.

| **Nifer a % y disgyblion sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg** | **2019** | | **2024** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Addysg gynradd cyfrwng Cymraeg | 869 | 6.22% o holl ddisgyblion ysgol gynradd | 879 | 6.83% o holl ddisgyblion ysgol gynradd |
| Addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg | 531. | 5.71% o holl ddisgyblion ysgol uwchradd | 601 | 6.31% o holl ddisgyblion ysgol uwchradd |

4.3 Mae dau arolwg arall yn darparu cipolwg o sgiliau Cymraeg sydd ychydig yn wahanol i'r Cyfrifiad.

**i) Arolwg Poblogaeth Blynyddol Mawrth 2025**

Yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) yw'r arolwg aelwydydd parhaus mwyaf yn y DU, yn seiliedig ar gyfweliadau gydag aelodau o aelwydydd wedi'u dewis a hap. Mae'r APB yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg a hefyd yn

cynnwys cwestiwn am ba mor aml mae pobl yn siarad Cymraeg.  Mae amcangyfrifon APB o allu Cymraeg yn llawer uwch yn hanesyddol na'r hyn a gynhyrchwyd gan y Cyfrifiad.  Mae'r canlyniadau ar gyfer Sir y Fflint yn dangos:

| Nifer y preswylwyr | Nifer sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg | % |
|---|---|---|
| 154,300 | 23,900 | 15.5% |

**ii) Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru'n arolwg wyneb yn wyneb ar gyfer pobl ar draws Cymru.  Bob blwyddyn, gofynnir i dros 11,000 o bobl 16 oed a hŷn am eu barn ar ystod eang o faterion sy'n cael effaith arnyn nhw a'u hardal leol.  Dewisir ymatebwyr ar hap i sicrhau fod y canlyniadau'n gynrychiadol o'r boblogaeth.  Mae'r canlyniadau ar gyfer Sir y Fflint yn 2022/23 yn dangos fod gan 22% o oedolion (16+) rywfaint o sgiliau Cymraeg.

**4.4 Beth ydym ni'n ei wneud yn barod?**

Rydym wedi penodi Swyddog Cymunedol y Gymraeg yn ein Gwasanaeth Ieuenctid sy'n gyfrifol am sefydlu'r Gymraeg ar draws y Gwasanaeth Ieuenctid, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau a chynyddu sgiliau'r Tîm i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.  Mae'r Swyddog yn defnyddio dull hwyliog gyda gweithwyr a phobl ifanc.  Mae'r Swyddog wedi sefydlu menter Cymraeg bob dydd i gefnogi gweithwyr a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Er bod y swydd hon yn newydd a'r penodiad cyntaf wedi'i wneud yn 2020, mae'n gwneud gwahaniaeth sylweddol.  Mae newid mawr wedi bod mewn agweddau a defnydd o'r iaith fel y gwelir yn y dystiolaeth isod.

**Enghraifft 1**

Mynychodd unigolyn ifanc (siaradwr Cymraeg) 17 oed sawl sesiwn a roddodd gyfle iddi ymgysylltu'n ddwyieithog. Roedd hi wedi teimlo cywilydd i siarad Cymraeg yn y gymuned a'r ysgol yn y gorffennol, meddai:

"Mae'r sesiynau wedi fy helpu i fagu hyder i siarad Cymraeg o flaen pobl eraill, ac mae gennyf bellach well dealltwriaeth o'r iaith.  Arferwn deimlo cywilydd i siarad Cymraeg, ond rwyf bellach yn mwynhau ac yn manteisio ar bob cyfle i siarad yr iaith yn ogystal â dysgu fy rhieni sy'n siarad Saesneg. Rwyf bellach yn teimlo balchder yn hytrach na chywilydd."

**Enghraifft 2**
Unigolyn ifanc (dysgwr) 17 oed sy'n mynychu darpariaethau amrywiol ac yn byw mewn ardal sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, yn gweithio yn Swydd Gaer, ac yn credu nad oedd ganddo sgiliau Cymraeg o gwbl:

"Mae'r Gymraeg wedi dod yn rhan fwy o'r clwb yn ddiweddar, gyda mwy o arwyddion, sgyrsiau a gweithgareddau'n defnyddio Cymraeg bob dydd. Mae treulio mwy o amser o gwmpas yr iaith wedi fy helpu i ddysgu geiriau a brawddegau newydd, ac rwyf wedi dechrau eu defnyddio'n naturiol yn y clwb, sydd wedi rhoi hwb i'm hyder yn defnyddio'r iaith."

Rydym hefyd wedi gweithredu menter Pencampwyr Cymraeg sy'n cydnabod y cyfraniadau ychwanegol mae ein cydweithwyr Cymraeg yn eu gwneud y tu hwnt i gyfrifoldebau eu swydd ac sy'n cefnogi eu cydweithwyr i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn ddyddiol.

Meddai un Pencampwr Cymraeg:

Rwy'n mwynhau helpu i hyrwyddo a gwella proffil yr iaith, ynghyd â chyfleoedd yn ein swyddfeydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Mae cydweithwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarchiadau Cymraeg yn y swyddfa hefyd.

## 5.0 Sut fyddwn yn cyflawni ein targed - Ein hamcanion

5.1 Rydym wedi seilio ein hamcanion ar dair thema: Cymuned, Teulu a'r Gweithle.

### 5.2 Amcan 1 - Cymuned

Rydym yn awyddus i sefydlu'r Gymraeg mewn bywyd cymunedol bob dydd drwy gynyddu gwelededd y Gymraeg a'i hintegreiddio i ddigwyddiadau cymunedol. Bydd hyn yn creu rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg ac yn hyrwyddo Sir y Fflint fel sir ddwyieithog.

**Mae hyn yn bwysig oherwydd:**

- Mae ymatebwyr i'n hymgynghoriad wedi dweud fod gwella gwelededd y Gymraeg yn helpu pobl i ddysgu ac yn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'n atgyfnerthu Sir y Fflint fel sir Gymreig.

**Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd**

- Nifer y masnachwyr ym musnesau Treffynnon/Holywell a'r Wyddgrug/Mold sy'n cymryd rhan yng nghynllun Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg.
- Nifer y busnesau yn Nhreffynnon a'r Wyddgrug sy'n arddangos adnoddau gan Gomisiynydd y Gymraeg i ddangos fod staff yn siarad Cymraeg, megis logo a bathodyn swigen siarad 'Cymraeg' oren Iaith Gwaith.
- Canran y siopau yng nghanol tref yr Wyddgrug a Threffynnon sy'n gallu cynnig gwasanaeth cwsmer sylfaenol yn y Gymraeg.
- Nifer yr ymweliadau â thudalen Gymraeg ein gwefan, safleoedd cyfryngau cymdeithasol a Fy Nghyfrif, a galwadau Cymraeg i'n Canolfannau Cyswllt.

### 5.3 Amcan 2 - Teulu

Ein hamcan yw cynyddu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddefnyddio eu Cymraeg.

**Mae hyn yn bwysig oherwydd:**

- Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg ei fod yn bwysig i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac ar ôl gadael yr ysgol. Bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal eu sgiliau.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg fel y nodir yn y Cyfrifiad yn gostwng. Os na wnawn ni rhywbeth, gallai'r nifer a'r canran barhau i ostwng.
- Bydd cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc yn gwella eu rhagolygon gwaith i'r dyfodol ac yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu i'r dyfodol.
- Mae trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd yn hanfodol ar gyfer ei pharhad ac mae pa mor aml y caiff ei defnyddio gartref yn arwydd o'i defnydd i'r dyfodol.
- Mae'r mwyafrif o blant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o deuluoedd sy'n siarad Saesneg, sy'n darparu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref.

**Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd**

- Nifer yr ysgolion sy'n cyflawni Gwobr Aur ar gyfer y Siarter Iaith ac Efydd, Arian ac Aur ar gyfer Cymraeg Campus.

- Nifer y gweithgareddau yn y gymuned a'r ysgol a drefnir gan Menter Iaith y Fflint a Wrecsam.
- Canran y plant meithrin (3 oed) sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canran y plant sy'n parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7.
- Nifer y camau yn y CSCA a gyflawnwyd.
- Nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg yn y sir.
- Nifer yr oedolion sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canran Cynlluniau Chwarae'r Haf dwyieithog.
- Canran y Clybiau Ieuenctid dwyieithog.

### 5.4 Amcan 3 - Gweithle

Ein hamcan yw datblygu hyder gweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg a'u cefnogi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn dymuno.

**Mae hyn yn bwysig oherwydd:**

- Mae Llywodraeth Cymru (Cymraeg 2025) wedi cydnabod y gweithle fel cyd-destun pwysig ar gyfer datblygiad ieithyddol unigolyn, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgu, defnyddio ac ymarfer y Gymraeg yn ddyddiol.
- Gall gweithwyr golli hyder yn y Gymraeg yn fuan iawn os nad ydynt yn defnyddio eu sgiliau ar ôl gadael yr ysgol.
- Mae angen gweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau dwyieithog a bodloni anghenion ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

**Sut fyddwn ni'n mesur cynnydd:**

- Nifer y gweithwyr sy'n mynychu sesiynau Panad a Sgwrs.
- Canran a nifer y gweithwyr sydd â lefel sylfaenol o gwrteisi Cymraeg.
- Canran a nifer y gweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n cofrestru ar gwrs o fewn 12 mis i ddechrau Cyflogaeth.
- Nifer y gweithwyr sy'n cael hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg.
- Nifer y Pencampwyr Cymraeg.
- Nifer y targedau a gyflawnwyd yn ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg.
- Nifer a chanran y gweithwyr sy'n defnyddio'r fersiwn Gymraeg o Outlook a Word.

## 6.0 Partneriaid

6.1 Nid yw'r Cyngor yn gallu cyflawni'r targedau hyn er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir heb gefnogaeth a chyfranogiad ein partneriaid.

6.2 Mae'r Fforwm Sirol yn grŵp a hwylusir gan Menter Iaith y Fflint a Wrecsam. Mae'r Fforwm yn cynnwys sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar draws Sir y Fflint a Wrecsam. Mae enghreifftiau o'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys yr Urdd, Coleg Cambria, Mudiad Meithrin a'r ddau awdurdod lleol. Mae'r Fforwm hwn yn darparu cyfle i gydweithio â phartneriaid

allweddol i gyflawni’r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Wrecsam a Sir y Fflint.  Byddwn yn gweithio gyda’r Fforwm i’w hannog i gefnogi’r Cyngor i gyflawni ein targed.

## 7.0 Monitro ac Adolygu

7.1 Bydd camau gweithredu a mesurau yn y Strategaeth hon yn cael eu hymgorffori yn ein system rheoli perfformiad a bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Cabinet yn flynyddol a phan fo angen. Bydd crynodeb o’r cynnydd a wneir wedi’i gynnwys o fewn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau’r Gymraeg.

7.2  Caiff cynnydd ei fonitro drwy Dîm y Prif Swyddog, y Cabinet, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol a Rhwydwaith yr Iaith sy’n cyfarfod bob chwarter. Byddwn yn adolygu a diweddaru ein camau a’n mesurau bob blwyddyn.

7.3  Bydd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol yn cyfarfod â’r Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid yn fisol i adolygu cynnydd y Strategaeth hon.

# Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg

## Cynllun Gweithredu

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1, 2 a 3 | Datblygu ymgyrch i chwalu mythau ac ystrydebau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol/Cyfathrebu Corfforaethol | Medi 2026 | Datblygu a chyhoeddi Cwestiynau Cyffredin ar Hwb Cymraeg | |
| 1 a 2 | Defnyddio mwy o Gymraeg bob dydd mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg | Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | Parhaus | Cynnydd yn nifer y negeseuon cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg Cymraeg | |
| 1 a 2 | Cynyddu'r defnydd o Gymraeg bob dydd yn y Gwasanaethau ieuenctid beth bynnag yw lefel y sgil. | Swyddog Cymunedol y Gymraeg | Parhaus | Datblygu adnoddau i Weithwyr Ieuenctid | |
| 1 a 2 | Datblygu ymgyrch ar gyfer gwasanaethau i ddefnyddio mwy o Gymraeg bob dydd | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | Rhagfyr 2026 | Cynnydd yng ngwelededd y Gymraeg | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 a 2 | Defnyddio mwy o Gymraeg bob dydd mewn newyddlenni Deiliaid Contract Tai Saesneg | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Cynnydd yng ngwelededd y Gymraeg | |
| 1, 2 a 3 | Gweithredu Mwy Na' Geiriau | Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu | Parhaus | Bodloni camau a thargedau | |
| 1, 2 a 3 | Datblygu menter i annog pobl i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt / mae eich Cymraeg yn ddigon da | Ymgynghorydd Polisi Strategol / Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | Mawrth 2025 | Datblygu a gweithredu menter | |
| 1 a 2 | Hyrwyddo fersiwn Gymraeg o safleoedd cyfryngau cymdeithasol ar fersiwn Saesneg safleoedd | Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | Hydref 2025 | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â thudalennau Cymraeg prif safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. | Wedi'i gwblhau |
| 1 a 2 | Rhannu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol dwyieithog i ddangos y buddion o'r Gymraeg mewn busnes. | Cyfathrebu Corfforaethol / Tîm Datblygu Busnes | Lansio erbyn mis Ionawr 2026, o leiaf 12 neges y flwyddyn | Nifer y negeseuon sy'n amlygu defnydd busnes o'r Gymraeg | |
| 1 a 2 | Hyrwyddo canolbwynt 'Busnes a Chymraeg' ar Hwb gydag adnoddau y gellir eu lawrlwytho (arwyddion, | Datblygu Busnes / Tîm Digidol / Menter Iaith | Cyhoeddi'r dudalen erbyn mis Gorffennaf | Adnoddau arbennig ar gyfer busnesau ar Hwb | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | cyfarchiadau, templed) ac enghreifftiau o arfer dda | | 2026; i'w hadolygu'n flynyddol | | |
| 1 a 2 | Hyrwyddo Helo Blod ac Iaith Gwaith i fusnesau drwy newyddlenni, digwyddiadau rhwydweithio a phecynnau sefydlu | Datblygu Busnes / Menter Iaith | Dechrau hyrwyddo yn ystod Chwarter 1 2026; i'w adolygu'n flynyddol | Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint at Helo Blod (sefydlu gwaelodlin ym Mlwyddyn 1) | |
| 1 a 2 | Hyrwyddo gyda busnesau ac annog cyfranogiad mewn hyfforddiant "Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer Busnes" (ar-lein neu wyneb yn wyneb) | Datblygu Busnes / Menter Iaith / Coleg Cambria | Sesiwn gyntaf erbyn mis Medi 2026; bob chwarter yn dilyn hynny | Nifer y busnesau sy'n cael mynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (sefydlu gwaelodlin ym Mlwyddyn 1) | |
| 1 a 2 | Hyrwyddo a Chefnogi 'Prosiect Aur yn Sir y Fflint' fel ffordd o annog defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol. | Swyddog Datblygu Busnes ac Athrawon Ymgynghorol Cymraeg | Mawrth 2026 | Gwell dealltwriaeth o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg | |
| 1 a 2 | Sicrhau fod pob cyfarfod Fforwm Busnes yn cael eu hagor a'u cloi yn ddwyieithog. | Y Tîm Busnes | Parhaus | Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 a 2 | Parhau i ddarparu cyllid i Menter Iaith y Fflint a Wrecsam i ddatblygu gweithgareddau cymunedol gan gynnwys dathlu digwyddiadau diwylliannol Cymreig. | Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid | Parhaus | Cyfleoedd i weld, clywed a defnyddio’r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol ar draws y Sir. | |
| 1, 2 a 3 | Parhau i hyrwyddo a dathlu digwyddiadau megis Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi a Defnyddia Dy Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd | |
| 1, 2 a 3 | Gweithio gyda Gwella, Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Hamdden, er mwyn cyflwyno mwy o Gymraeg o fewn eu cyfleusterau. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2027 | Datblygu a gweithredu cynllun | |
| 1 a 2 | Gweithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg | Rheolwr Tîm Ymgynghorol y Gymraeg | Parhaus | Cyflawni sawl cam | |
| 3 | Gweithredu Strategaeth Sgiliau’r Gymraeg | Dysgu a Datblygu | Parhaus | Nifer y targedau Strategaeth Sgiliau Cymraeg a fodlonwyd | |
| 3 | Cynnal asesiad o sgiliau Cymraeg ar gyfer aelodau etholedig. | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Tachwedd 2026 | Sefydlu gwaelodlin o ran sgiliau Cymraeg aelodau etholedig | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Cynnig hyfforddiant sgiliau Cymraeg i bob Cynghorydd. | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Parhaus | % y Cynghorwyr sydd wedi nodi sgiliau Cymraeg lefel 1 neu uwch. | |
| 3 | Cynnig hyfforddiant sgiliau Cymraeg i Gynghorwyr newydd fel rhan o'u rhaglen gynefino | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Mai 2027 | Cynnydd yn y defnydd o Gymraeg bob dydd mewn cyfarfodydd. | |
| 3 | Darparu adnoddau i gefnogi Aelodau Etholedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd/Ymgynghorydd Polisi Strategol | Ebrill 2026 | Cynnydd yn y defnydd o Gymraeg bob dydd mewn cyfarfodydd pwyllgor. | |
| 3 | Gosod y Gymraeg yn gyntaf ar slipiau cyfarch a phenawdau llythyrau | Dylunio Graffeg | Rhagfyr 2026 | Hyrwyddo'r darlun o'r Cyngor fel sefydliad dwyieithog. | |
| 3 | Ffurfioli a datblygu'r fenter Pencampwyr Cymraeg ar draws y Cyngor | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd/Ymgynghorydd Polisi Strategol | Ebrill 2026 | Rhagor o Bencampwyr Cymraeg ar gael yn y Cyngor i gefnogi gwasanaethau | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Gweithio gyda Fforwm Sirol i annog partneriaid i nodi camau y gallant eu cymryd i gyfrannu at y Strategaeth. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Y Fforwm Sirol yn cyfrannu at Cymraeg i Bawb ac yn rhannu data i helpu i fesur canlyniadau. | |
| 3 | Newid y ffordd y disgrifir sgiliau Cymraeg ar hysbysebion swyddi a manylion am yr unigolyn | Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth | I'w gadarnhau | Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n gwneud cais am swyddi. | |
| 3 | Sicrhau fod pob swydd a hysbysebir yn cwblhau asesiad o sgiliau Cymraeg os nad oes asesiad wedi’i gwblhau yn y pum mlynedd diwethaf. | Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth | I'w gadarnhau | Asesiad o Sgiliau Cymraeg cyfredol ar gyfer pob swydd a hysbysebir. | |
| 3 | Datblygu ymgyrch i annog hyder yn y Gymraeg a chynyddu’r defnydd o’r gwasanaeth prawf-ddarllen yn hytrach na’r gwasanaeth cyfieithu | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Rhagfyr 2026 | | |
| 3 | Datblygu Hwb Cymraeg ar y fewnrwyd. | Ymgynghorydd Polisi Strategol/Swyddog Digidol/Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol | Rhagfyr 2026 | Sefydlu Hwb Cymraeg ar y fewnrwyd | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1, 2 a 3 | Cynyddu adnoddau ar y wefan Hwb Cymraeg i gefnogi pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg | Swyddog Arweiniol - Datblygu Chwarae | Parhaus | Rhagor o adnoddau ar gael | |
| 1 a 2 | Adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Parhaus | Adrodd yr argymhellion i'r Cabinet | |
| 1 a 2 | Drwy Rwydwaith yr Iaith, nodi tri gwasanaeth bob blwyddyn i'w hyrwyddo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Rhagfyr 2026 | Cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n dewis gwasanaeth Cymraeg | |
| 1, 2 a 3 | Hunanasesiadau blynyddol parhaus yn erbyn Safonau'r Gymraeg i sicrhau a gwella cydymffurfiaeth. | Arweinwyr Portffolio'r Gymraeg | Parhaus | Cydymffurfio'n gyson â Safonau'r Gymraeg | |
| 1, 2 a 3 | Datblygu a rhannu straeon am sut mae defnyddio'r Gymraeg yn helpu pobl sy'n derbyn gwasanaethau gan Wasanaethau Cymdeithasol. | Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu | Parhaus | Nifer y straeon a rannwyd. | |
| 3 | Diweddaru'r ffurflen TG ar gyfer gweithwyr newydd i nodi pa weithwyr newydd fydd angen nodi Siaradwr Cymraeg/Dysgwr Cymraeg yn dilyn eu cyfeiriad e-bost a phwy hoffai'r fersiwn Gymraeg o Outlook a Word. | Rheolwr Gwasanaethau Busnes TG | Gorffennaf 2026 | Cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n defnyddio'r fersiwn Gymraeg o Outlook a Word. | |
| 3. | Diweddaru'r Ffurflen Gomisiynu TG i gynnwys fersiwn Gymraeg ar | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Mawrth 2026 | Ystyriaeth o'r Gymraeg wrth | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddatrysiadau meddalwedd TG mewnol newydd. | | | gomisiynu meddalwedd TG newydd i'w defnyddio gan weithwyr | |
| 3. | Ystyried y posibilrwydd o gynnig ffonau symudol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. | Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG | Gorffennaf 2026 | Nifer y gweithwyr sy'n gwneud cais am ffonau symudol Cymraeg | |
| 3. | Diweddaru'r ffurflen ymadawiad ar ddyfeisiau TG y Cyngor i sicrhau ei bod yn ddwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf). | Rheolwr Perthynas Busnes TG | Gorffennaf 2026 | Hyrwyddo darlun o Gyngor dwyieithog. | |
| 3. | Sicrhau y caiff cerddoriaeth Gymraeg ei chwarae ar linell dal y lein y Ddesg Gymorth TG | Rheolwr Perthynas Busnes TG | Gorffennaf 2026 | Cynyddu clywadwyedd y Gymraeg a'i gwneud yn rhan fwy naturiol o'r gweithle. | |
| 3. | Diweddaru gofynion asesu'r Gymraeg ar gyfer swyddi a hysbysebir er mwyn sicrhau fod swyddi sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn nodi sgiliau Cymraeg sylfaenol (lefel 1) fel gofyniad neu ofyniad i gyflawni'r lefel hon o fewn 12 mis. | Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth | Medi 2026 | Adlewyrchu'r lefel ofynnol o Gymraeg mewn swyddi a hysbysebir | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Datblygu pamffled i bwysleisio'r pwysigrwydd o'r Gymraeg yn y Cyngor ac adnoddau i gefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, a gaiff eu hanfon ynghyd â llythyrau contract at ymgeiswyr swyddi llwyddiannus, | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Medi 2026 | Dealltwriaeth gan bob gweithiwr o ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg a darparu mynediad at adnoddau i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | |
| 1, 2 a 3 | Datblygu fideos ar gyfer y wefan i ddangos y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer pob lefel o Gymraeg ar y fframwaith hyfedredd iaith. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Rhagfyr 2027 | Hyder gan ymgeiswyr swyddi i asesu eu lefel sgiliau'n briodol. | |
| 1, 2 a 3 | Cynnal arolwg o ddefnydd y Gymraeg gyda gweithwyr a'i ailadrodd mewn tair blynedd i nodi p'un a oes unrhyw gynnydd mewn defnydd. | Ymgynghorydd Polisi Strategol | Rhagfyr 2026 | % y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn defnyddio ychydig o Gymraeg bob dydd | |
| 1 a 2 | Sicrhau fod y Tîm Datblygu Chwarae'n parhau i helpu i integreiddio teuluoedd sy'n ffoaduriaid i'w cymunedau newydd | Swyddog Arweiniol - Datblygu Chwarae | Parhaus | Teuluoedd sy'n ffoaduriaid yn cymryd rhan mewn gweithgareddau | |

| Amcan | Tasg | Pwy | Amserlen | Canlyniadau / Allbynnau | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | a'u cyflwyno i'r Gymraeg a'i diwylliant. | | | diwylliannol Cymreig. | |
| 1 a 2 | Parhau i ddarparu gwersi Cymraeg sylfaenol i deuluoedd a adsefydlwyd o Afghanistan a Syria fel rhan o'r hyfforddiant Saesneg fel ail iaith. | Cydlynydd Adsefydlu | Parhaus | Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan deuluoedd a adsefydlwyd. | |
| 1 a 2 | Parhau i gefnogi teuluoedd a adsefydlwyd i brofi digwyddiadau diwylliannol Cymreig fel rhan o'u hintegreiddiad i'r gymuned leol. | Cydlynydd Adsefydlu | Parhaus | Darparu profiadau o ddiwylliant Cymreig i deuluoedd a adsefydlwyd. | |